Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Terrig

**Ffordd y Llan**
**Trenddyn**
**Sir y Fflint**
**CH7 4LN**
**Dyddiad yr arolygiad: 6 Ebrill 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Terrig yn Ysgol Terrig – ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhentref Trenddyn, Sir y Fflint. Mae`r Cylch yn elwa o gael defnydd llawn o ystafell ddosbarth o fewn yr ysgol a mynediad i iard yr ysgol. Mae`r trefniant hwn yn sicrhau lefel dda o ddiogelwch gan fod rhaid i ymwelwyr, rhieni a gofalwyr ddod i mewn i adeilad yr ysgol cyn dod at y Cylch. Golyga hefyd bod y plant yn medru symud i`r cam nesaf yn eu haddysg yn hawdd, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn mynychu`r ysgol hon sy`n gyfrwng Cymraeg.

Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch sefydlog hwn yn y mis sy`n dilyn eu hail benblwydd a gadael yn y tymor maent yn cael eu penblwydd yn bedair oed. Mae`r Cylch ar agor yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 y.b. ac 11.30 y.b. am bedwar bore`r wythnos (nid Dydd Mawrth). Ar hyn o bryd, mae 10 o blant ar y gofrestr, 3 yn dair oed, ac ariennir un ohonynt. Mae`r Cylch wedi ei gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer uchafswm o 16 o blant.

Cyflogir tri aelod o staff – mae ganddynt ddigon o brofiad ac wedi mynychu ystod eang o gyrsiau hyfforddi perthnasol.

Mae`r ystafell ddosbarth a ddefnyddir gan y Cylch yn amgylchedd deniadol ar gyfer y plant. Mae`n fawr a chanddi ddodfrefn addas fel byrddau a chadeiriau. Mae`n gynnes ac yn olau ac mae arddangosfeydd o waith plant ar y waliau. Mae hysbysfwrdd ar bwys y mynediad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr am y Cylch. Mae gan y plant fynediad i iard yr ysgol tu allan lle maent yn chwarae ar deganau mawr a gyda tywod a dŵr.

Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch o`r pentref a`r ardal wledig gyfagos. Does neb o dan anfantais, neb o gefndir ethnig ac ar hyn o bryd, does dim un plentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae`r Cylch wedi`i ddarparu`n dda ar gyfer derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Does dim un plentyn yn dod o gartref lle siaredir Cymraeg yn bennaf yn y cartref ac mae pob un yn medru siarad Saesneg.

Arolygwyd y Cylch yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2010. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Mae`n aelod o Fudiad Ysgolion Meithrin ac wedi ennill statws Cylch Rhagorol yn y flwyddyn 2009.

Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

- Mae`r staff yn fodelau rôl da ac fel siaradwyr Cymraeg rhugl, maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y plant.
- Mae`r staff yn cyd-weithio`n effeithiol ac yn darparu`r plant â phrofiadau dysgu diddorol.
- Mae`r cysylltiadau â rhieni a`r gymuned yn dda iawn ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddysgu`r plant a`u gallu i siarad Cymraeg.
- Mae`r Cylch yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo lles plant a ffordd o fyw sy`n iach.
- Mae gan y Cylch ethos cynhwysol, cyfeillgar a chartrefol y mae`r plant yn ei fwynhau ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal i`r holl blant.

### Rhagolygon gwella

- Mae gan y staff agwedd gadarnhaol tuag at newid a darparu`r profiadau dysgu gorau posibl i`r plant.
- Mae`r staff yn barod i dderbyn syniadau newydd ac wedi gweithredu cwrciwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.
- Mae`r staff wedi gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd hyfforddi sydd wedi cael effaith fuddiol ar y cwrciwlwm a addysgir.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio gweithdrefnau asesu er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A2 cynhyrchu cynlluniau dysgu manwl sy`n nodi dilyniant a pharhad yn y dysgu yn glir sy`n seiliedig ar gyflawniad blaenorol y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cwricwlwm o ddydd i ddydd wedi`i gynllunio`n dda i ddiddori`r plant a`u darparu â phrofiadau gwerthfawr.

Mae`r tri oedolyn yn cymryd rhan yn y cynllunio a`r cyflwyniad o`r cwricwlwm sydd wedi`i gynllunio`n dda i fodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen o sut mae plant yn dysgu.

Mae`r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd da a gwerthfawr yng ngwaith y Cylch o ddydd i ddydd i`r plant ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Mae`r plant yn ffurfio perthynas dda â`i gilydd ac oedolion ac yn dechrau dangos parch a goddefgarwch.

Mae`r cynllunio yn darparu digon o gyfleoedd i`r plant ddewis gweithgareddau a gweithio`n annibynnol yn ogystal â gweithio mewn grwpiau bach. Mae`r cynllunio yn sicrhau bod medrau llythrennedd a chyfathrebu`r plant yn datblygu`n arbennig o dda.

Mae`r cyfleoedd sydd yn cael eu cynllunio yn darparu`r plant â chyfleoedd i`r plant ddatblygu eu hymwybyddiaeth a`u dealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru.

Mae cyfleoedd yn cael eu darparu i`r plant ddechrau deall am ail-gylchu, fel casglu papur gwastraff a`r rolau sydd gan wahanol bobl yn eu cymuned.

Drwyddi draw, mae`r cwricwlwm yn darparu`r plant ag amrywiaeth dda o brofiadau. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder yn y cynllunio er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu`n drefnus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant a bod y cwricwlwm yn ddigon eang i fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn seiliedig ar wybodaeth dda`r staff o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu`r plant. Mae gan oedolion ddisgwyliadau uchel o`r plant ac mae eu gwaith yn dangos bod y disgwyliadau hyn yn cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae gwaith y plant yn nodi cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion tu fewn a thu allan. Mae`r gweithgareddau yn ddigon heriol ac yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion unigol.

Caiff ymddygiad ei reoli`n dda iawn ac mae hyn yn cael ei hyrwyddo gan gymhareb plentyn/oedolyn dda iawn. Mae`r staff yn fodelau iaith dda iawn ac mae ganddynt ffocws cryf ac effeithiol ar ddatblygu iaith Gymraeg y plant.

Defnyddir cwestiynu yn dda i herio`r plant ac mae`r staff yn gwybod pryd i ymyrryd yng ngweithgareddau`r plant. Drwyddi draw, mae`r staff yn gweithio gyda`i gilydd yn dda iawn ac yn deall eu rolau`n dda.

Mae`r staff yn adnabod yn plant yn dda iawn, yn nhermau eu cyflawniad a chynnydd personol ac academaidd fel ei gilydd. Mae`r cofnodion yn dangos bod plant yn cael eu hasesu fel mater o drefn gan gofnodi`r cynnydd. Fodd bynnag, nid yw`r arsylwadau a chofnodir yn nodi cynnydd plant yn wrthrychol fel arfer, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio`n effeithiol i gynllunio`r cwricwlwm.

Mae rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant drwy drafodaethau rheolaidd, drwy edrych ar waith plant ac yn fwy ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw`r cofnodion asesu yn nodi`n glir y camau nesaf yn nysgu`r plant na`r hyn fedr rhieni ei wneud i gefnogi dysgu eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r Cylch yn llwyddiannus yn ei hyrwyddiad o iechyd a lles plant. Mae`r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y feithrinfa ac yn hapus i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a osodir ar eu cyfer bob bore. Mae`r Cylch yn meithrin gwerthoedd

fel parch at ei gilydd sy`n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o rannu a chymryd cyfrifoldeb.

Mae gwaith dyddiol y Cylch yn sefydlu fframwaith bersonol a chymdeithasol dda ar gyfer bywyd, gan gynnwys egwyddorion fel gonestrwydd, tegwch a pharch am y gwirionedd ym mywyd bob dydd.

Mae gan y Cylch fynediad uniongyrchol i gymuned wledig gyfoethog a thrwy ymweliadau rheolaidd â`r caeau agored, cloddiau a`r goedwig, daw`r plant yn ymwybodol o gyfoeth a rhyfeddod y byd naturiol maent yn byw ynddo.

Caiff cyfleoedd eu cynllunio er mwyn i`r plant weithio gyda`i gilydd ac fel canlyniad maent yn dysgu eu medrau cymdeithasol o rannu a chymryd tro.

Daw plant yn ymwybodol hefyd o ddiwylliant a rhai o draddodiadau Cymru drwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi a choginio bwyd sy`n draddodiadol i Gymru, fel pice ar y maen.

Caiff y plant ofal da – maent yn cael eu hannog i gadw`n lân, fel ar ôl chwarae tu allan a golchi`u dwylo cyn byrbrydau.  Maent yn datblygu medrau fel gwsigo cotiau a hetiau cyn mynd allan.

Drwyddi draw, mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant.  Mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd ac mae`r gweithdrefnau yn dilyn "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008".  Ymdrinir ag asesiadau risg fel mater o drefn.

Mae`r Cylch yn amgylchedd diogel ar gyfer plant.  Mae`r ystafell addysgu yn rhan o adeilad yr ysgol gynradd ac yn rhan felly o drefniadau diogelu`r ysgol.  Yn yr un modd, mae`r cyfleusterau yn yr awyr agored yn rhan o`r ysgol ac yn ddiogel.  Mae pob gofal yn cael ei gymryd pan mae`r plant yn cael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod yng ngofal eu rhieni neu`r person adnabyddus sy`n eu casglu.

Mae`r staff yn wyliadwrus wrth nodi`r plant sydd angen cymorth arbenigol ac arweiniad proffesiynol allanol yn ôl yr angen.  Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol yn fuan iawn o unrhyw blant sydd angen cymorth ychwanegol yn eu dysgu.  Mae`r staff yn gyfarwydd â`r gweithdrefnau ar gyfer cefnogi plant tebyg.  Ar hyn o bryd, nid oes plentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Drwy ei weithgareddau ddydd i ddydd a`r agwedd a mabwysiadur gan y staff, mae`r Cylch yn hyrwyddo ethos rhagorol yn llwyddiannus.  Mae`r holl blant yn cael eu trin fel unigolion a chyda pharch.  Mae eu hunigolrwydd yn cael eu cydnabod a`u hyrwyddo.

Mae`r Cylch yn creu awyrgylch cartrefol ac mae`r staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy`n cyfoethogi ymddygiad da ac yn llwyddo i gael gwared ar unrhyw ffurf o aflonyddwch. Byddai`r Cylch, oherwydd ei leoliad a`i gyfleusterau, yn medru darparu`n dda ar gyfer unrhyw blentyn ag anableddau corfforol.

Mae gan bob plentyn hawl gyfartal i`r cwricwlwm sy`n cael ei gyfoethogi`n addas ag ymweliadau i`r gymuned. Mae`r plant, fel arfer, yn cael gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn gweithio gyda`i gilydd yn dda ac yn elwa o fod yn rhan o`r Cylch am nifer o flynyddoedd. Maent yn deall eu rolau`n llawn ac yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae`r holl staff yn cymryd rhan yn y cynllunio a thrwy hyfforddiant rheolaidd maent wedi hyrwyddo a chynnal gwelliant yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diweddar ac yn enwedig ers cyflwyniad cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae gwaith pob dydd y Cylch yn canolbwyntio`n dda ar fodloni anghenion plant a chyflawnir hyn yn ymarferol. Mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni sy`n cael cysylltiad rheolaidd â staff y Cylch.

Gan fod nifer fach o staff (3) sy`n adnabod eu gilydd yn dda fel cydweithwyr a ffrindiau ceir trafodaeth aml a rheolaidd am waith y Cylch. Fe`u cefnogwyd yn dda gan y pwyllgor rheoli.

Mae`r Cylch wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae blaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu`r Cyfnod Sylfaen wedi`u cyflawni`n llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae`r Cylch wedi nodi meysydd i`w gwella yn gyson ac wedi eu gweithredu er lles y plant. Mae`r cynlluniau datblygu cyfredol yn cynnwys meysydd eraill i`w gwella sy`n cyfeirio`n dda at gynllunio ar gyfer cwricwlwm cytbwys er mwyn sicrhau cynnydd a dilyniant yn y dysgu ac yn canolbwyntio ar y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Mae`r argymhellion cyfredol yn cefnogi`r rhain fel meysydd i`w gwella.

Nodwedd da a nodedig o`r cynllunio i wella ansawdd a sicrhau gwelliant yw ymrwymiad y staff fel y dangosir gan eu presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi. Mae digon o dystiolaeth hefyd bod staff yn gwneud defnydd da o`u hyfforddiant a chyngor a bod y plant sy`n mynychu`r Cylch yn elwa fel canlyniad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae rhieni, yn eu hymatebion i`r holiadur, yn datgan eu boddhad llwyr â`r Cylch. Mae`r rhieni yn werthfawrogol iawn o`r polisi "drws agored" a`r ffaith ei bod hi`n hawdd mynd at y staff. Maent yn gwerthfawrogi`r gofal a`r gefnogaeth mae eu plant yn derbyn yn enwedig wrth iddynt ddechrau yn y Cylch. Dywed rhieni eu bod yn ymgartrefu`n gyflym. Roedd rhieni hefyd yn gwerthfawrogi`r cynnydd mae`r plant yn ei wneud ac yn arbennig o falch bod eu plant yn dysgu`r iaith Gymraeg. Cofnodwyd rhieni hefyd eu bod yn fodlon â diogelwch y Cylch. Hoffai ychydig o rieni fwy o wybodaeth am gynnydd eu plant.

Nodwedd da iawn a nodedig yw`r cysylltiadau a sefydlwyd â`r ysgol gynradd. Mae`r Cylch yn ffodus ei fod yn medru defnyddio ystafell addysgu yn yr ysgol a rhannu rhai o`r cyfleusterau. Mae cysylltiadau da â`r athrawes ddosbarth derbyn ac mae`r plant sydd wedi gadael y Cylch yn aml yn dychwelyd er mwyn ymweld â`r Cylch pan gânt gyfle. Mae`r trefniadau trosglwyddo yn dda fel canlyniad gan wneud y broses drosglwyddo i`r dosbarth derbyn yn hawdd i`r plant. Yn ogystal, mae`r Cylch yn defnyddio rhai o adnoddau a chyfleusterau`r Cylch.

Mae trafodaethau â staff cefnogi`r awdurdod lleol a staff Mudiad Ysgolion Meithrin yn nodi`r cysylltiadau agos, cynhyrchiol ac effeithiol sydd ar waith a bod holl staff y Cylch yn barod i dderbyn syniadau. Mae gan y Cylch hanes da o weithio mewn partneriaeth â gwahanol fudiadau ac yn enwedig fel rhan o`r gymuned, ac mae hyn wedi hyrwyddo datblygiad a gwelliant yn y Cylch dros y blynyddoedd diwethaf.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff yn gweithio gyda`i gilydd yn effeithiol iawn. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd gan ddefnyddio arbenigedd unigolion yn dda.

Mae gan y Cylch ddigon o adnoddau ac fe`u defnyddir yn dda i gefnogi`r addysgu. Mae`r adnoddau yn hygyrch iawn i`r plant. Mae gan y Cylch fyrddau a chadeiriau o`r maint priodol ac mae ardaloedd dysgu penodol wedi eu dynodi yn ôl gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gwaith y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ar y waliau ac mae`r Cylch yn elwa gan fod adnoddau a deunyddiau yn medru aros yn yr unlle o ddydd i ddydd.

Defnyddir yr awyr agored yn briodol i ddatblygu medrau`r plant ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafodd wyth holiadur eu dychwelyd.  Roedd pawb yn datgan boddhad â`r Cylch gyda llawer o rieni yn cytuno bod:

i. eu plentyn yn hoffi`r Cylch;
ii. eu plentyn wedi ymgartrefu`n dda;
iii. eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
iv. eu plentyn yn cael ei drin/ei thrin yn deg a chyda pharch;
v. eu plentyn yn ddiogel yn y lleoliad;
vi. rhieni yn gyfforddus ynglŷn â mynd at y staff;
vii. eu plentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.

Hoffai ychydig o rieni fwy o wybodaeth am gynnydd eu plant.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae`r plant yn hapus yn y Cylch. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd.  Mewn trafodaeth, soniodd y plant eu bod yn hoffi`r Cylch yn enwedig gwrando ar storïau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)